FundRaising Standards Board

Yr Addewid Codi Arian

Beth yw'r Addewid Codi Arian?

Addewid Codi Arian y Bwrdd Safonau Codi Arian yw'r addewid a wneir gan aelodau cynllun y Bwrdd Safonau Codi Arian i'r cyhoedd, yn ymrwymo i'r safonau ymarfer uchaf, ac yn sicrhau bod eu holl weithgareddau yn agored ac yn deg, yn onest ac yn gyfreithiol. Drwy ymuno â chynllun y Bwrdd Safonau Codi Arian, byddwch yn cytuno i lynu wrth yr Addewid Codi Arian wrth i chi godi arian.

Ein Haddewid Codi Arian

Rydym yn aelodau o gynllun hunanreoleiddiol y Bwrdd Safonau Codi Arian. Mae'r Bwrdd Safonau Codi Arian yn gweithio i sicrhau bod mudiadau sy'n codi arian gan y cyhoedd ar gyfer elusennau yn gwneud hynny'n onest ac yn briodol. Fel aelodau o'r cynllun, rydym yn dilyn Codau Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion allweddol sydd yn y Codau ac yn yr Addewid hwn.

Rydym wedi ymrwymo i safonau uchel

- Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau bod swyddogion codi arian, gwirfoddolwyr a chontractwyr codi arian sy'n gweithio gyda ni i godi arian yn cydymffurfio â'r Codau a'r Ad dewid hwn.
- Rydym yn cydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â diogelu data, iechyd a diogelwch a'r amgylchedd

Rydym yn onest ac yn agored

- Rydym yn dweud y gwir ac nid ydym yn gor-ddweud
- Rydym yn gwneud yr hyn a ddywedwn a wnawn
- Rydym yn ateb bob cwestiwn rhesymol am ein gweithgareddau codi arian a'n costau. Cy sylltwch â ni, tarwch olwg ar ein gwefan neu darllenwch ein Hadroddiad Blynyddol os oes angen rhagor o fanylion arnoch

Rydym yn glir

- Rydym yn glir ynghylch pwy ydym ni, yr hyn a wnawn a sut y defnyddir eich rhodd
- Pan fydd gennym gytundeb hyrwyddo gyda chwmni masnachol, byddwn yn egluro faint o'r pris prynu a dderbyniwn
- Byddwn yn rhoi eglurhad clir o sut y gallwch wneud rhodd a diwygio ymrwymiad rheolaidd

Rydym yn barchus

- Rydym yn parchu hawliau, urddas a phreifatrwydd ein cefnogwyr a'n buddiolwyr
- Ni fyddwn yn pwyso gormod arnoch i roi ac os nad ydych eisiau rhoi neu am roi'r gorau i roi, byddwn yn parchu eich penderfyniad.
- Os byddwch yn dweud wrthym nad ydych am i ni gysylltu â chi mewn ffordd benodol, ni fyd dwn yn gwneud hynny

Rydym yn deg ac yn rhesymol

- Rydym yn gofalu nad ydym yn defnyddio unrhyw ddelweddau na geiriau a allai achosi trallod neu dramgwydd na ellir ei gyfiawnhau
- Rydym yn gofalu nad ydym yn achosi unrhyw niwsans nac aflonyddwch afresymol

Rydym yn atebol

- Os ydych yn anfodlon ag unrhyw beth yr ydym wedi'i wneud wrth godi arian, gallwch gysylltu â ni i gwyno
- Mae gennym drefn gwyno ac mae copi ohoni ar gael ar gais. Os na allwn ddatrys eich cwyn, rydym yn derbyn awdurdod y Bwrdd Safonau Codi Arian i wneud penderfyniad terfynol

give with confidence

FundRaising
Standards Board

Fundraising Standards Board
Hampton House, 20 Albert Embankment
London, SE1 7TJ

T:0845 402 5442
F:0845 402 5443
Minicom: 18001 0845 402 5442 (via Typetalk)
E:membership@frsb.org.uk
W:www.frsb.org.uk

07/07
Registered in England and Wales. Company Limited by Guarantee.
Community Interest Company No.584626. Registered Office: 66 Lincoln's Inn Fields, London, WC2A 3LH.